	Cynigwyd gan H.Huws ac eiliwyd gan G. C. Jones. Derbyniwyd y taenlenni a chytunwyd i'r taliadau.		
7.0	**Awdit** - Y Clerc i weithredu ar frys. G.C. Jones i holi Gwasg Y bwthyn am eu bod heb dalu siec £40.00 i'r banc ers mis Rhagfyr 2019.	Clerc G. C. Jones	
8.0	**Adolygu Ffiniau Etholiadol Ynys Môn**		
8.1	Ymgynghoriad ar adolygu ffiniau etholiadol. Awgyrym i newid o 30 o gyghorwyr i 35. Nid yw'r awgrymiadau'n effeithio ffiniau etholiadol Llanfairpwll. Yr unig fater i nodi yw fod y bwriad i enwi un o'r wardiau newydd yn ardal Dwyran/Niwbwrch yn Braint. Gallai hyn greu dryswch gyda ward Braint y Cyngor Cymuned yn Llanfairpwll. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i newid enw ward Braint Llanfairpwll i Eilian os bydd angen.	Dyddiad cau yr ymgynghoriad Medi 14 2020	
9.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
9.1	43 Stad Ty Croes - Dim Sylw		
9.2	Glan Aber, Ffordd Brynsiencyn - Dim Sylw		
10.0	**Materion Brys**		
10.1	Parc Bryn Eira - Y Clerc wedi dod o hyd i weithredoedd yn ymwneud a'r tir yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Bro gan T. C. Roberts, Pen Y Berth. Angen cadarnhau os gafwyd y tir ei drosglwyddo'n ol yn ffurfiol ynteu ydio'n parhau i fod yn berchnogaeth i'r Cyngor Bro.	Clerc i ymchwilio.	
10.2	**Rhandiroedd** - ambell gais wedi'u derbyn gan drigolion y pentref am randiroedd. Nodwyd nad oes tir priodol ar gyfer rhandiroedd ym meddiant y Cyngor Bro. Adroddodd A. Mummery ei fod wedi derbyn gwybodaeth gan Dylan Edwrads, Cyngor Sir Ynys Môn nad yw'r tir oedd wedi'i glustnodi ar gyfer estyniad i fynwent Rhandir Hedd, bellach ddim yn addas i'w ddefnyddio i greu mynwent oherwydd pibellau dwr. Efallai bydd modd cael prynu neu lesio'r tir hwn ar gyfer rhandiroedd. A. Mummery yn disgwyl ymateb gan D. Edwards ynglyn a phrisiau a thelerau. Y Cyngor Bro'n agored i dderbyn syniadau am lecynau tir addas. Cytunwyd i greu grwp i edrych ar yr holl opsiynau.	A. Mummery I. Gruffydd, D. Jones, H. Huws, S. Edwards.	
10.3	**Cyfrifon Neuadd Goffa** - Angen eu diweddaru ar safle we'r Comisiwn Elusennol	Clerc	
10.4	Bin sbwriel y Gors - Angen ei gloi gan fod gwastraff cartref yn cael ei adael ynddo'n rheolaidd.	Clerc i gysylltu a'r gofalwr.	
10.5	Clwb Bowlio Llanfairpwll - gofyn caniatiad y Cyngor Bro i ail agor y safle ar sail eu bod wedi cynnal asesiad risg o'r safle ac wedi gosod meuriadau priodol yn eu lle i ddiogelu defnyddwyr. Cytunwyd i'r clwb ail agor Dydd Llun 6ed o Orffennaf.		
10.6	Er gwybodaeth - S. Edwards wedi gwneud cais ar ran y Clwb Pel Droed lau i'r rhaglen teledu Prosiect £5,000 er mwyn gwenud gwelliannau i bafiliwn y Gors.		
10.7	Gorsal Rheilffordd Llanfairpwll - oherwydd mesuriadau Covid 19 gan y cwmni trenau ni fydd gwasanaethau'n stopio'n Llanfairpwll oherwydd fod y platffform rhy fyr i alluogi agor 2 ddrws ar y trenau. Nodwyd pryder fod hyn am greu creu anhawster i nifer o ddefnyddwyr sy'n teithio i'w gwaith ac hefyd i ieuenctid yr ardal ac i dwristiaeth. Gofyn i TFW beth yw'r hyd lleiaf ar gyfer platfform i alluogi defnyddio dau ddrws. Copi i Iwan Cadwalladr, CSYM, Plas Newydd, Aelod Seneddol.	Clerc	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 28 Gorffennaf 2020 am 7.00yh trwy ZOOM

Arwyddwyd.....28/07/20..... (Cadeirydd) .....John Roberts.....

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 30 Mehefin 2020

Presennol: J. Roberts (Cadeirydd); A. Mummery, A. Jones, G. Parry, S. Edwards, I Gruffydd, R. Meirion Jones, G. C. Jones, H. Ellis, D. Jones, H. Huws. R. Williams, Cynghorydd Sirol

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau.** A. Williams wedi methu cael mynediad i'r cyfarfod ar lein.		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb -** A. Jones a G. Parry - Materion Clwb Bowlio		
3.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
3.1	Gwaith atal llifogydd wedi cychwyn ar Lôn Pontronwy.		
3.2	Coeden wedi marw o flaen Rhos y Gad wedi'i dynnu lawr.		
3.3	Cais llwyddiannus £3500 i'r Hwb Cymunedol.	Clerc i anfonebu.	
3.4	Ysgolion Môn yn agor am un wythnos cyn y gwyliau haf, cychwyn 13 Gorffennaf.		
3.5	CSYM wedi cytuno gyda hawl y tirfeddianwr i newid y gamdda ar y llwybr troed tu cefn i'r Garnedd i giât. CSYM wedi gofyn i'r Cyngor Bro dorri'r gwrychyn yn ogystal a'r gwair.	Clerc i ofyn i CSYM am y trefniant talu.	
4.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Mai 2020**		
4.1	Cynigwyd gan G. C Jones ac eiliwyd gan R. M. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
5.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
5.1	**Camerau Cylch Cyfyng -** Y Clerc wedi cofrestru gyda'r ICO.	Clerc i osod debyd uniongyrchol i dalu'n flynyddol.	
5.2	**Safle We** - angen casglu ychydig mwy o wybodaeth cyn mynd yn fyw.	Clerc i anfon cofnodion i S. Edwards	
5.3	**Newid Cyfrif Banc i Nat West** - y banc ddim yn derbyn ceisiadau newydd ar hyn o bryd. Angen mynd nôl at HSBC ynglyn ag agor cyfrif newydd i'r Neuadd Goffa. Ffurflenni wedi'u cwblhau a'u cyflwyno i'r banc ers misoedd. Cadarnhawyd y penderfyniad i newid cyfrif i Nat West pan fydd y sefyllfa wedi newid.	Clerc i ddilyn fyny.	
5.4	**Yr Hen Doiledau** - Dim gwybodaeth pellach wedi'i dderbyn gan y cyfreithwyr.	Clerc i ddilyn fyny.	
5.5	**Cyflenwad Nwy** i'r Neuadd Goffa - angen trefnu.	Clerc	
5.6	**Maes Parcio'r Gors** - i'w drafod eto		
5.7	**Polisi'r Cyngor Sir yn ymwneud ag enwi tai a stadau newydd.**	Clerc i ofyn am wybodaeth.	
5.8	Goleuadau Maes Aml Bwrpas - Trevor Owen am weithredu pan fydd y rheoliadau Covid 19 wedi'u ysgafnhau.		
5.9	Chwyn ar maes chwarae'r Gors - sefyllfa ychydig yn well ond angen sylw pellach. Gofyn i'r gofalwr weithredu. Creu asesiad risg o waith y gofalwr/tirmon.	Clerc / G. C. Jones	
5.10	Arogl wast dynol ger mynwent santes Fair - Dwr Cymru wedi cynnal arolwg o'r safle, dim golwg o wast dynol yno. Gofyn iddynt arbrofi'r dwr. Clerc hefyd wedi gofyn iddynt edrych ar yr afon yn Pwllfanogl, wedi derbyn cwyn am safon y dwr.	Clerc	
5.11	Indefatigable - y giat i'r cae yn parhau i fod yn agored.	Clerc i ddilyn fyny.	
5.12	Gor dyfiant ym mynwent Santes fair - wedi ei dorri erbyn hyn.		
6.0	**Cyfrifon a Thaliadau Mehefin 2020**		